

Meddyg Teulu

Cyflwyniad

Mae meddygon teulu (a elwir hefyd yn ymarferwyr cyffredinol) yn gofalu am iechyd pobl yn eu hardal leol. Chi fydd y pwynt cyswllt cyntaf i'r rhan fwyaf o gleifion. Mae'r rhan fwyaf o'ch gwaith yn cael ei wneud yn ystod ymgynghoriadau yn y feddygfa ac yn ystod ymweliadau cartref.

Byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth helaeth am gyflyrau meddygol er mwyn ichi asesu problem a phenderfynu ar y camau priodol i'w cymryd. Rhaid ichi wybod sut a phryd mae ymyrryd, drwy driniaeth, ataliaeth ac addysg, i hyrwyddo iechyd eich cleifion.



Adwaenir hefyd fel

- Meddyg Teulu
- Meddyg Teulu

Gweithgareddau Gwaith

Mae Meddygon Teulu'n rhan hanfodol o ofal meddygol ym mhedwar ban byd. Fel meddyg teulu, chi yw'r pwynt cyswllt cyntaf i'r rhan fwyaf o gleifion. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod ymgynghoriadau yn y feddygfa ac yn ystod ymweliadau cartref.

Mae meddygon teulu'n darparu amrywiaeth eang o ofal yn y gymuned leol. Byddwch yn gweld cleifion yn y feddygfa ac mewn canolfannau brys gofal sylfaenol os oes angen, a hefyd yn ymweld â chartrefi cleifion. Bydd angen ichi fod yn ymwybodol o ffactorau corfforol, seicolegol a chymdeithasol wrth ofalu am eich cleifion, ac ystyried y ffactorau hyn.

Byddwch yn defnyddio'ch gwybodaeth helaeth am gyflyrau meddygol er mwyn asesu problem a phenderfynu ar y camau priodol i'w cymryd. Rhaid ichi wybod sut a phryd mae ymyrryd, drwy driniaeth, ataliaeth ac addysg, i hyrwyddo iechyd eich cleifion.

Amrywiaeth helaeth y gwaith y byddwch yn dod ar ei draws mewn ymarfer cyffredinol yw un o'r prif atyniadau. Mae anghenion gwahanol gleifion yn gallu amrywio'n helaeth yn ystod un feddygfa! Nid oes yr un arbenigedd meddygol arall yn cynnig cymaint o amrywiaeth - gallech fod yn trin pawb o fenywod beichiog i fabanod, a phopeth o salwch meddwl i feddygaeth chwaraeon.

Mae'n bosibl y byddwch yn datblygu diddordebau arbennig mewn meysydd amrywiol. Mae ymarfer cyffredinol yn gyfle i atal salwch, nid ei drin yn unig.

Gall meddygon teulu unigol ennill incwm cymharol uchel yn gynnar yn eu gyrfa a hwn yw un o'r arbenigeddau meddygol sy'n fwyaf addas i waith rhan-amser a gweithio hyblyg.

Mae'r rhan fwyaf o feddygon teulu'n gontractwyr annibynnol, hunangyflogedig i'r GIG. Oherwydd yr annibyniaeth hon, gan amlaf, byddwch yn gyfrifol am ddarparu adeilad addas i ymarfer ohono, ac am gyflogi eich staff eich hun.

Rhinweddau Personol a Sgiliau

I ddod yn Feddyg Teulu, byddwch angen:

- y gallu i ymboeni am gleifion a'u perthnasau
- ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel
- ymwybyddiaeth am eich cyfyngiadau eich hun
- y gallu i ofyn am gymorth pan fydd yn briodol
- ymrwymiad i gadw'n gyfoes a gwella ansawdd eich perfformiad eich hun
- gwerthfawrogi gwaith tîm
- cymhwysedd clinigol (bod yn dda'n delio â sefyllfaoedd meddygol)

- bod yn drefnus

Cyflog a Chyfleoedd

Cyflog Cyfraddau cyflog bras yw'r rhai isod.

- Blwyddyn Sylfaen 1: £27,146
- Blwyddyn Sylfaen 2: £31,422
- Meddygon sy'n dechrau hyfforddi: £37,191 - £47,132
- Meddygon Arbenigol: £39,060 - £72,840
- Mae Uwch Feddygon Teulu yn ennill £77,913 - £105,042

Oriau gwaith Mae Meddygon Teulu'n gweithio oddeutu 50 awr yr wythnos. Rhennir yr oriau fel arfer rhwng meddygfa'r bore a meddygfa'r prynhawn/yr hwyr. Mae rhai Meddygon Teulu'n dewis gwneud dyletswyddau y tu allan i'r oriau arferol. **Ble y gallwn i weithio?** Mae cyfleoedd gan Feddygon Teulu mewn trefi, dinasoedd ac ardaloedd gwledig ledled y Deyrnas Unedig. Mae nifer fechan o feddygon teulu'n gweithio yn y lluoedd arfog. Gallai fod cyfleoedd mewn gwledydd eraill, yn enwedig yn Ewrop, UDA, Canada ac Awstralia. Mae rhai Meddygon Teulu'n gweithio gyda sefydliadau gwirfoddol mewn gwledydd eraill. **Hunangyflogaeth** Mae'r rhan fwyaf o Feddygon Teulu'n hunangyflogedig. **Ble y mae'r swyddi gwag yn cael eu hysbysebu?** Hysbysebir swyddi gwag ar wefan swyddi'r GIG, mewn cyfnodolion proffesiynol ac ar fyrddau swyddi arbenigol a chyffredinol.

Llwybrau Mynediad a Hyfforddiant

Llwybrau mynediad Felly, sut mae dod yn Feddyg Teulu? Er mwyn dod yn Feddyg Teulu, rydych yn hyfforddi'n gyntaf i fod yn Feddyg, ac yna'n dewis arbenigo yng nghyfnod olaf eich hyfforddiant. Yn gyntaf, bydd angen i chi ddangos eich cymhelliad a dangos bod gennych ddealltwriaeth realistig o ofynion y rôl hon. Mae profiad gwaith, fel cysgodi Meddygon a'u staff gofal iechyd, neu efallai gweithio mewn amgylchedd gofal (fel cartref gofal) yn hanfodol i gael lle mewn ysgol feddygaeth. Mae'n gallu ymddangos yn gymhleth iawn, ond, yn syml, mae yna dri phrif gyfnod y mae'n rhaid eu cwblhau er mwyn cymhwyso'n Feddyg Teulu:

- cyfnod 1 cwrs gradd ysgol feddygol
- cyfnod 2 rhaglen sylfaen
- cyfnod 3 hyfforddiant arbenigedd, ymarfer cyffredinol a rhediad

Gellir cael rhagor o fanylion yn ein herthygl wybodaeth 'Ceisiadau i Ysgolion Meddygol'. Ffordd wych o ddechrau ar yr yrfa hon yw trwy interniaeth. Darllenwch ein herthygl wybodaeth 'Interniaethau' am ragor o fanylion. Dyma'r tri chyfnod yn fanylach: **Cyfnod 1: Ysgol Feddygol i Israddedigion** Mae hyn yn cynnwys cyfnod astudio mewn ysgol feddygol (sydd ynghlwm wrth brifysgol) gan gynnwys lleoliadau profiad gwaith mewn ysbyty a safle cymunedol. Mae'r gwahanol fathau o gwrs gradd meddygol yn cynnwys:

- cwrs gradd pum mlynedd safonol
- cyrsiau sy'n cynnwys blwyddyn gyn-feddygol, i ymgeiswyr sydd â chymwysterau Safon Uwch (neu gywerth) nad ydynt mewn pynciau gwyddoniaeth
- cyrsiau carlam i raddedigion (pedair blynedd o hyd)

Pa gymwysterau sydd eu hangen arnoch i gael lle mewn Ysgol Feddygol? Mae mwyafrif yr ysgolion meddygol yn gofyn am Safon Uwch mewn cemeg, ond bydd eraill yn derbyn Safon UG mewn cemeg, gan ddibynnu ar y cymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig. Mae rhai'n gofyn am Safon Uwch mewn bioleg. **Ymgeiswyr sydd heb Safon Uwch gwyddoniaeth** O ran ymgeiswyr sydd heb bynciau gwyddoniaeth i'w cynnig ar lefel Safon Uwch (neu gywerth), mae modd gwneud blwyddyn gyn-feddygol ychwanegol mewn rhai prifysgolion. Mae'r flwyddyn gyn-feddygol yn gwrs rhagarweiniol mewn cemeg, ffiseg a bioleg ac mae fel arfer yn para 30 wythnos. **Ymgeiswyr heb Safon Uwch** Cynigir rhyddig bach o gyrsiau mynediad sy'n gallu arwain at radd feddygol. Mae derbynioldeb cyrsiau mynediad yn amrywio rhwng ysgolion meddygol ac felly mae'n hanfodol gwirio hyn cyn dechrau cwrs mynediad. O ran ymgeiswyr heb Safon Uwch ond sydd â phrofiad bywyd sylweddol, efallai bydd angen cymwysterau academiaidd arnynt o hyd a bydd angen iddynt gyflwyno tystiolaeth o'u gallu i ymdopi â gofynion y cwrs y maen nhw'n ymgeisio amdano. **Ymgeiswyr sydd â gradd** Mae ysgolion meddygol yn gynyddol yn croesawu ceisiadau gan raddedigion. Fel arfer, mae angen ar raddedigion sy'n ymgeisio gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uchaf. Mae rhai ysgolion meddygol yn gofyn bod y radd mewn pwnc sy'n berthnasol i wyddoniaeth, ond nid yw eraill yn gofyn hynny, felly cofiwch holi'r ysgol feddygol y bwriadwch fynd iddi. **Am beth fydd ysgolion meddygol yn chwilio mewn ymgeiswyr?** Mae'n anodd cael lle mewn ysgol feddygol! Byddwch yn cael eich galw am gyfweiliad ac yn wynebu cwestiynau craff am eich

cymhelliant, eich gwaith yn yr ysgol, eich hobiau a'ch diddordebau personol, a bydd rhaid ichi gyflwyno tystiolaeth o'ch cyflawniadau academiaidd. Un cwestiwn allweddol fydd eich rhesymau dros ddymuno bod yn Feddyg. Dylech hefyd allu arddangos profiad gwaith cyflogedig neu wirfoddol perthnasol e.e. gwaith yn cynorthwyo mewn ysbty, neu ym maes nyrsio neu ofal preswyl. Gall myfyrwyr ddod o hyd i gyfeiriadau ysbytai a chartrefi preswyl lleol ar-lein, neu yn y llyfr teleffon. Beth am gysylltu â nhw a threfnu ychydig o brofiad gwaith? **Cyfnod 2: Rhaglen sylfaen** Dyma raglen dwy flynedd y mae'n rhaid i holl raddedigion meddygol y DU ei gwneud cyn symud ymlaen i hyfforddiant pellach. Rhaid eich bod wedi cwblhau hyfforddiant cyfnod 1 ysgol feddygol israddedig cyn dechrau ar y rhaglen sylfaen o ddwy flynedd. Byddwch yn cael eich galw'n Feddyg Sylfaen tra byddwch ar y rhaglen hyfforddi. **Cyfnod 3: Hyfforddiant arbenigedd, ymarfer cyffredinol a rhediad** Yn y cyfnod hwn y cewch chi hyfforddi ac arbenigo mewn ymarfer cyffredinol. Wedi ichi gwblhau hwn, gallwch alw'ch hun yn Feddyg Teulu! **Deddf Adsefydlu Troseddwyr** Mae'r yrfa hon yn eithriad i Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi roi gwybodaeth i gyflogwr am gollfarnau, rhybuddiadau, ceryddon neu rybuddion sydd wedi darford neu sydd heb ddarford, os bydd yn gofyn i chi wneud hynny. Mae hyn yn wahanol i yrfaoedd eraill lle mae'n rhaid i chi ddatgelu gwybodaeth am gollfarnau sydd heb ddarford yn unig, os gofynnir i chi wneud hynny.

Cymwysterau

Mae mwyafrif yr ysgolion meddygol yn gofyn am Safon Uwch mewn cemeg, ond bydd eraill yn derbyn Safon UG mewn cemeg, gan ddibynnu ar y cymwysterau eraill sy'n cael eu cynnig. Mae rhai'n mynnu Safon Uwch mewn bioleg.

Mae rhai prifysgolion yn derbyn Bagloriaeth Cymru yn gywerth ag 1 Safon Uwch.

Cyfleoedd i Oedolion

Gall Meddygon Teulu unigol ennill incwm cymharol uchel yn gynnar yn eu gyrfa a hwn yw un o'r arbenigeddau meddygol sy'n fwyaf addas i waith rhan-amser a gweithio hyblyg.

Cyfyngiadau oedran

Mae'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad osod cyfyngiadau oedran ar gael mynediad i waith, addysg neu hyfforddiant, oni bai y gallant ddangos bod gwir angen am y cyfyngiadau hynny.

Cyrsiau Os na fydd y cymwysterau angenrheidiol arferol gennych i wneud gradd mewn meddygaeth, efallai y byddech yn medru cael mynediad i'r cwrs drwy gyfrwng:

- cwrs Mynediad i Feddygaeth.
- Blwyddyn 'sylfaen' neu 'gyn-glinigol' os nad oes lefel A gennych mewn gwyddoniaeth.

Mae ysgolion meddygol yn croesawu mwyfwy geisiadau gan raddedigion. Fel arfer, mae angen gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uchaf ar raddedigion sy'n ymgeisio. Mae rhai ysgolion meddygol yn mynnu bod y radd mewn pwnc sy'n berthnasol i wyddoniaeth, ond nid yw pob ysgol yn mynnu hyn, felly sicrhewch eich bod yn holi'r ysgol feddygol y bwriadwch fynd iddi.

Hefyd, mae graddau meddygol byrrach neu rai llwybr carlam ar gael i raddedigion ac maent fel arfer yn para pedair blynedd. Fel arfer, byddai arnoch angen gradd gyntaf berthnasol, er enghraifft, mewn pwnc gwyddoniaeth, er bod rhai prifysgolion yn derbyn graddedigion mewn unrhyw bwnc.

Hyfforddiant

Gallwch hyfforddi mewn arbenigedd ymarfer cyffredinol (unwaith y byddwch yn gymwysedig i fod yn feddyg). Gall hyn fod drwy gyfrwng 'Rhaglen Hyfforddiant Llai na Llawn Amser' y GIG lle bo'r myfyrwyr yn gwneud 50 - 80% o'r rhaglen llawn amser wythnosol arferol.

Y dewisiadau eraill am hyfforddiant rhan-amser yw 'rhannu swydd' a 'rhan-amser parhaol'.

Cyllid

Mae'n bosibl y bydd myfyrwyr ar gyrsiau prifysgol mewn meddygaeth (sy'n cael eu cydnabod gan y Cyngor Meddygol Cyffredinol) yn gymwys am gymorth ariannol gan y GIG yn rhan o'u cwrs.

Os cewch eich derbyn ar gyrsiau cymeradwy, efallai byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol gan y GIG. Mae'r amser y caiff hwn ei ddarparu'n dibynnu ar y math o gwrs rydych yn ei wneud.

1) Cyllid i fyfyrwyr israddedig ar gyrsiau pum mlynedd safonol

Os cewch eich derbyn ar y cyrsiau pum mlynedd safonol, mae gennych yr hawl i gael benthyciadau myfyrwyr gan Student Finance England am gynhaliath a ffioedd dysgu yn y pedair blynedd gyntaf.

O'r bumed flwyddyn ymlaen, bydd ffioedd dysgu'n cael eu talu gan Gynllun Bwrsariaeth Myfyrwyr y GIG a byddwch yn gymwys i wneud cais am fwrsariaeth gan y GIG sy'n destun prawf modd, er mwyn talu costau cynhaliath a benthyciad cynhaliath wedi'i leihau gan Student Finance England.

Mae £1,000 o grant nad yw'n destun prawf modd ar gael hefyd i fyfyrwyr yn rhan o'u dyfarniad Bwrsariaeth y GIG.

Bydd y trefniadau cyllid hyn yn parhau'n berthnasol os ydych yn dechrau'ch astudiaethau ym mlynnyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16 (gall prifysgolion godi hyd at fwyafswm o £9,000 mewn ffioedd dysgu yn 2014/15 a 2015/2016).

Fodd bynnag, mae'r trefniadau i fyfyrwyr meddygol **graddedig** ar gwrs pum mlynedd yn wahanol. Yn ystod pedair blynedd gyntaf y cwrs, ni fydddech yn gymwys i gael benthyciad am ffioedd dysgu na grant cynhaliath ni waeth a ydych wedi cael cyllid o'r blaen. Fodd bynnag, efallai byddwch yn gymwys i wneud cais am fenthyciad cynhaliath llawn, ar sail incwm, gan Student Finance England.

O bumed flwyddyn yr hyfforddiant, mae myfyrwyr meddygol graddedig yn cael yr un cymorth â myfyrwyr meddygol israddedig (gweler uchod).

2) Cyllid i raddedigion ar gyrsiau carlam

Ar hyn o bryd, bydd rhaid ichi ariannu £3,465 gyntaf eich ffioedd dysgu yn y flwyddyn gyntaf. Ym mlynnyddoedd dilynol eich cwrs, bydd cynllun Bwrsariaeth y GIG yn talu £3,465 tuag at eich ffioedd dysgu. Drwy gydol y cwrs, bydd myfyrwyr cymwys yn gallu cael benthyciad gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr i dalu'r gwahaniaeth rhwng £3,465 a ffioedd dysgu eu prifysgolion, hyd at fwyafswm o £9,000.

Gwybodaeth Bellach

Sefydliadau proffesiynol

Mae gan sefydliadau proffesiynol y swyddogaethau canlynol :

- Cefnogi eu haelodau.
- Diogelu'r cyhoedd drwy gadw'r safonau'n uchel yn eu galwedigaethau.

I gael mwy o wybodaeth am y sefydliad(au) sy'n berthnasol i'r yrfa hon, gwiriwch y manylion cyswllt isod.

Cysylltiadau

- **NHS Careers**
Gwefan <http://www.weds.wales.nhs.uk/contact-nhs-wales-careers/>
- **NHS Wales Careers Information**
Publisher: National Leadership and Innovation Agency for Healthcare
E-bost abm.wedsteam@wales.nhs.uk
Gwefan www.wales.nhs.uk/sitesplus/829/page/36090
- **NHS Jobs**
Gwefan www.jobs.nhs.uk
- **Step into the NHS**
NHS careers
Ffôn 0345 6060655
Gwefan www.stepintothenhs.nhs.uk
- **Skills for Health**
Skills for the health sector
Cyfeiriad Goldsmiths House, Broad Plain, Bristol BS2 0JP
Ffôn 0117 9221155

E-bost office@skillsforhealth.org.uk
Gwefan www.skillsforhealth.org.uk

- **NHS Education for Scotland (NES)**
Scottish enquiries
Cyfeiriad Westport 102, West Port, Edinburgh EH3 9DN
Ffôn 0131 6563200
E-bost enquiries@nes.scot.nhs.uk
Gwefan www.nes.scot.nhs.uk
- **Northern Ireland Medical and Dental Training Agency (NIMDTA)**
Irish enquiries
Cyfeiriad Beechill House, 42 Beechill Road, Belfast BT8 7RL
Ffôn 028 9040 0000
E-bost nimdta@nimdta.gov.uk
Gwefan www.nimdta.gov.uk
- **UK Clinical Aptitude Test (UKCAT)**
Ffôn 0161 8557409
E-bost ukcatcustomerservices@pearson.com
Gwefan www.ukcat.ac.uk
- **Graduate Medical School Admissions Test (GAMSAT)**
Ffôn 020 3829 5924
E-bost unitedkingdom@acer.org
Gwefan gamsat.acer.org
- **British Medical Association (BMA)**
Cyfeiriad BMA House, Tavistock Square, London WC1H 9JP
Ffôn 020 7387 4499
Gwefan bma.org.uk
- **Royal College of General Practitioners (RCGP)**
Cyfeiriad 30 Euston Square, London NW1 2FB
Ffôn 020 3188 7400
Gwefan www.rcgp.org.uk
- **BMJ Careers**
Cyfeiriad BMA House, Tavistock Square, London WC1H 9JP
Ffôn 020 7387 4410
E-bost bmjcareershelp@bmj.com
Gwefan www.bmjcareers.com
- **National Recruitment Office for GP Training (NRO)**
Cyfeiriad Regus Business Centre, Central Boulevard, Blythe Valley Business Park, Solihull, West Midlands B90 8AG
Ffôn 01564 711177
E-bost help@gprecruitment.org.uk
Gwefan <https://gprecruitment.hee.nhs.uk/>
- **British Medical Association (BMA) Northern Ireland**
Irish enquiries
Cyfeiriad 16 Cromac Place, Cromac Wood, Ormeau Road, Belfast BT7 2JB
Ffôn 028 9026 9666
E-bost BMANorthernIreland@bma.org.uk
Gwefan bma.org.uk
- **Money 4 MedStudents**
Cyfeiriad 24 King's Road, Wimbledon, London SW19 8QN
Ffôn 020 8545 8443
E-bost jkubale@rmbf.org
Gwefan www.money4medstudents.org

- **British Medical Association (BMA) Scotland**
Scottish enquiries
Cyfeiriad 14 Queen Street, Edinburgh EH2 1LL
Ffôn 0131 2473000
E-bost BMAScotland@bma.org.uk
Gwefan bma.org.uk
- **General Medical Council (GMC)**
Cyfeiriad 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW
Ffôn 0161 9236602
E-bost gmc@gmc-uk.org
Gwefan www.gmc-uk.org
- **General Medical Council (GMC Scotland)**
Scottish enquiries
Cyfeiriad 5th Floor, The Tun, 4 Jackson's Entry, Edinburgh EH8 8PJ
Ffôn 0131 5258700
E-bost gmcscotland@gmc-uk.org
Gwefan www.gmc-uk.org
- **Royal College of General Practitioners (RCGP) Scotland**
Scottish enquiries
Cyfeiriad 25 Queen Street, Edinburgh EH2 1JX
Ffôn 0131 2606800
E-bost info@rcgp-scotland.org.uk
Gwefan www.rcgp.org.uk
- **British Medical Journal (BMJ)**
Gwefan www.bmj.com
- **Getting into Medical School 2014 Entry**
Author: Simon Horner Publisher: Trotman
- **The Essential Guide to Becoming a Doctor**
Authors: Adrian Blundell, Richard Harrison, Benjamin W. Turney Publisher: Wiley-Blackwell
- **Scottish Medical Training (SMT)**
Scottish enquiries
E-bost enquiries@scotmt.org.uk
Gwefan www.scotmt.scot.nhs.uk
- **British Medical Association (BMA) Wales**
Welsh enquiries
Cyfeiriad 5th Floor, 2 Caspian Point, Caspian Way, Cardiff Bay, Cardiff CF10 4DQ
Ffôn 029 2047 4646
E-bost BMAWales@bma.org.uk
Gwefan bma.org.uk
- **People Exchange Cymru (PEC)**
Public sector recruitment portal for Wales
E-bost peopleexchangecymru@gov.wales
Gwefan www.peopleexchangecymru.org.uk/home

Gyrfaoedd sy'n gysylltiedig

- Llawfeddyg
- Seiciatrydd
- Patholegydd Fforensig
- Anesthetydd
- Meddyg
- Llawfeddyg Plastig

